Heddlu Police
DYFED-POWYS

CAMAU GWEITHREDU

Enw'r cyfarfod: Grŵp Ymgynghorol Annibynnol
Dyddiad: 23 Tachwedd 2022
Amser: 10:30 - 13:00
Lleoliad: Pencadlys yr Heddlu – SCC005

Cadeirydd y Cyfarfod: Derek Turner – Ymgynghorydd Annibynnol

Yn Bresennol:-	Derek Turner, - Ymgynghorydd Annibynnol Paul Saunders - Ymgynghorydd Annibynnol Debra Croft - Ymgynghorydd Annibynnol Baba Gana - Ymgynghorydd Annibynnol Patricia Rafique - Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain Paul Lewis - Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain Teleri Williams - Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg, HDP Miranda Bryant - Swyddog Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP Iona Jones-Kenny - SCCH 8174, HDP Chris Neve - Prif Arolygydd, Gweithrediadau, HDP Gruff Ifan - Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, SCHTh Siân Bamford - Cydlynydd Iechyd Meddwl, HDP (rhan o'r cyfarfod) Ffion Grundy - Pennaeth Rhaglenni, Stonewall (rhan o'r cyfarfod).
Ymddiheuriadau:-	Elizabeth Johnson - Ymgynghorydd Annibynnol
Lliwiau'r Cynllun Gweithredu:	Gwyrdd = Cwblhawyd Ambr = Ar Waith Llwyd - Nodwyd yr Eitem

	Rhif y Cam Gweithredu	Camau Gweithredu/Penderfyniadau Allweddol	Perchennog	Graddfa Amser	Statws	Diweddariad
2	IAG/002/200522/A	Yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig, Nia Rees i gasglu gwybodaeth am yr amser y mae swyddogion a staff yn aros yn eu swyddi.	Nia Rees	Y Cyfarfod Nesaf	Cam Gweithredu Wedi'i Gwblhau	1/12/22 Rhannwyd data â'r grŵp 14/08/2022 – Mae Nia wedi lawrlwytho'r data – unwaith y bydd wedi'i ddadansoddi a'i osod ar ffurf ddarllenadwy, bydd Nia'n ei rannu â'r grŵp.
3	IAG/003/200522/A	Nia i gael ffigurau ar gyfer ymgeiswyr sy'n gadael y broses recriwtio hyd at y cam derbyn cynnig er mwyn gweld pa un ai a oes unrhyw dueddiadau o ran ffigurau gadael.	Nia Rees	Y Cyfarfod Nesaf	Cam Gweithredu Wedi'i Gwblhau	1/12/22 Rhannwyd data â'r grŵp. 14/08/2022 - Mae Nia wedi lawrlwytho'r data – unwaith y bydd wedi'i ddadansoddi a'i osod ar ffurf ddarllenadwy, bydd Nia'n ei rannu â'r grŵp.

4	IAG/004/200522/A	Nia i drefnu ymweliadau blynyddol â chymdeithas Baba Gana ar gyfer gweithdai recriwtio.	Nia Rees	Y Cyfarfod Nesaf	Ar Waith	29/11/22 Mae Baba Gana wedi rhannu un dyddiad â'r heddlu. Mae Teleri Williams wedi gofyn am ddyddiadau eraill ar gyfer gweddill y flwyddyn. 14/08/2022 – Bydd Nia'n trefnu ymweliadau â Baba Gana ym mis Medi. 24/08/2022 – Does neb wedi cysylltu â Baba Gana ynglŷn ag ymweliadau ym mis Medi. Nia i gysylltu ag ef.
5	IAG/005/200522/A	Gofynnwyd i Frances Taylor (Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu) ddarganfod pa un ai a ydynt yn derbyn llawer o gwynion gan y gymuned fyddar. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhoi i'r grŵp.	Frances Taylor	Y Cyfarfod Nesaf	Rhyddhawyd yr Eitem	24/08/2022: Gwnaed cysylltiad. 24/08/2022: Teleri i gysylltu â Frances Taylor am ddiweddariad a chopi o'r cyflwyniad.
9	IAG/009/240822/A	Baba Gana i rannu dyddiadau ac amserau'r Rhwydwaith Amlddiwylliannol â Teleri.	Baba Gana	Y Cyfarfod Nesaf	Rhyddhawyd yr Eitem	29/11/22 Gweler cam gweithredu 4 uchod.

11	IAG/011/240822/A	Rhannodd y grŵp fod angen mynd i'r afael â Diwylliant o fewn yr Heddlu. Teleri Williams i gysylltu â Linda Williams er mwyn derbyn diweddariad ynglŷn â'r Ffrwd Gwaith Diwylliant.	Teleri Williams	Y Cyfarfod Nesaf	Eitem Wedi'i Gwblhau	29/11/22 Mae gweithgor diwylliant newydd wedi'i greu ac mae'r cyfarfod cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer mis Rhagfyr 2022. Awgrymodd y grŵp y dylai aelod o'r grŵp hwn fod yn bresennol er mwyn cynrychioli'r GYA. Bydd Baba Gana'n mynychu ar ran y GYA. 8/11/22 Bydd Teleri Williams yn rhoi diweddariad byr yn y cyfarfod ar 23 Tachwedd 2022. 1/09/2022: Cysylltodd Teleri Williams â Linda Williams am ddiweddariad.
12	IAG/012/24112022/N	Cytunodd y grŵp y dylai Derek Turner barhau'n Gadeirydd, ac y dylid ystyried hyn eto flwyddyn nesaf pan fydd aelodau newydd yn eu lle.	Cytunwyd	Nodwyd		

13	IAG/013/24112022/A	Trafododd y grŵp amserau cyfarfodydd yn y dyfodol. Roedd yn well gan rai gyfarfod gyda'r hwyr, tra bod eraill yn ffafrio cyfarfodydd yn ystod y dydd. Cytunodd y grŵp y dylid rhannu holiadur byr er mwyn canfod pa amserau sydd orau gan unigolion, ac y gallai amserau cyfarfodydd amrywio yn y dyfodol er mwyn darparu ar gyfer anghenion pawb. Yn ogystal, trafododd y grŵp pa un ai a ddylid cynnal adolygiadau Stopio a Chwilio fel rhan o gyfarfod y GYA neu fel cyfarfod ar wahân ar yr un diwrnod.	Miranda Bryant	Y Cyfarfod Nesaf	Cam Gweithredu Wedi'i Gwblhau	1/12/22 – Rhannwyd holiadur er mwyn canfod hoffterau pobl.

14	IAG/014/24112022 /A	Rhoddodd Ffion Grundy, Pennaeth Rhaglenni, drosolwg o Stonewall i'r grŵp. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â diwylliant a sut y mae pobl yn cael eu trin o fewn y gymuned gan yr heddlu. Mae hyfforddiant ymwybyddiaeth bob amser yn cael ei roi, ond nid yw o reidrwydd yn newid y diwylliant. Mae'r GYA yn awyddus iawn i gael aelodau o gefndiroedd amrywiol, a holwyd pa un ai a oedd gan Stonewall gysylltiadau ag unrhyw unigolion LHDT+ yn ardal Dyfed-Powys a fyddai'n hoffi dod yn aelodau o'r GYA. Miranda Bryant i anfon copi o'r daflen wybodaeth electronig am y GYA at Ffion Grundy i'w rhannu.	Ffion Grundy /Miranda Bryant	Y Cyfarfod Nesaf	Cwblhawyd y Cam Gweithredu	28/11/22 – Anfonwyd taflen wybodaeth am y GYA at Ffion Grundy i'w rhannu.

15	IAG/15/24112022/A	Hysbysebu ar gyfer aelodau newydd o'r GYA ar ofod hysbysebu ar-lein Stonewall. Anfon manylion yr hysbyseb at Nia Rees.	Miranda Bryant/ Nia Rees	Y Cyfarfod Nesaf	Cam Gweithredu	
16	IAG/16/2411/022/A	Rhoddwyd cyflwyniad mewn perthynas â'r gwasanaeth dewis 2 111 Iechyd Meddwl newydd. Holwyd sut y mae'r Gymuned Fyddar yn cael mynediad i'r gwasanaeth hwn. Bydd Siân Bamford yn adrodd yn ôl i'r grŵp hwn ynglŷn â sut all y Gymuned Fyddar gael mynediad i'r gwasanaeth dewis 2 111 hwn.	Siân Bamford	Y Cyfarfod Nesaf	Cam Gweithredu	
17	IAG/17/24112022/A	Trafododd y GYA sut yr oedd y gwasanaeth dewis 2 111 iechyd meddwl newydd yn cael ei hyrwyddo. Bydd Siân Bamford yn rhannu'r pecyn cyfathrebu â'r grŵp.	Siân Bamford/ Aelodau'r GYA	Y Cyfarfod Nesaf	Cwblhawyd y Cam Gweithredu	1/12/22 Rhannwyd pecyn cyfathrebu mewn perthynas â'r gwasanaeth dewis 2 111 iechyd meddwl newydd â'r grŵp.

18	IAG/18/24112022/N	Trafododd y GYA 10 cofnod Stopio a Chwilio ac 1 darn fideo camera corff. Roedd y goruchwylydd wedi gweld yr holl gofnodion Stopio a Chwilio, ond byddai'n well gan aelodau'r GYA pe bai modd iddynt ddarllen sylwadau'r goruchwylydd. Efallai bydd hyn yn bosibl yn y dyfodol o ganlyniadau i newidiadau system. Yn gyffredinol, cytunodd y grŵp fod angen nodi mwy o fanylion/cyd-destun mewn rhai cofnodion o fewn y rheswm/sail dros gynnal proses Stopio a Chwilio. Er enghraifft, a oedd y swyddog yn medru gwynto canabis cyn chwilio, neu esbonio ymddygiad yr unigolyn a gododd bryder cyn y broses Stopio a Chwilio? Rhannwyd un darn ffilm camera corff â'r grŵp hwn. Ar ôl gwylio'r darn fideo camera corff, cytunodd y grŵp fod rheswm dilys dros gynnal y broses Stopio a Chwilio hon a bod y swyddog yn gwrtais iawn wrth yr unigolion cysylltiedig.			Nodwyd.	

Y Cyfarfod Nesaf:

15 Chwefror 2023 ym Mhencadlys yr Heddlu/hybrid o 10:30 – 12:30 ar gyfer Cyfarfod Chwarterol y GYA.

15 Chwefror 2023 ym Mhencadlys yr Heddlu/hybrid o 13:00 – 14:00 ar gyfer adolygu Stopio a Chwilio.